Lisa Davies

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn Ymddiriedolwr?

Mae fy ngyrfa amrywiol wedi rhoi mewnwelediad defnyddiol i mi feddwl yn strategol a gweld y darlun mwy o faint, gan edrych y tu hwnt i gyfleoedd unigol.

Rwy'n rhagweithiol ac yn cydweithio ag eraill, er mwyn nodi anghenion mudiad a'i ddefnyddwyr, gan adeiladu cydberthnasau cryf ac ymatebol er mwyn cyflawni canlyniadau llwyddiannus.

Rwy'n cael fy ngyrru gan ddata, gan chwilio am benderfyniadau ar sail tystiolaeth, ac yn annog eraill i wella'n barhaus, drwy waith ymchwil a gwerthuso.

Fel siaradwr Cymraeg a mam i blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg, rwy'n cefnogi dwyieithrwydd a phwysigrwydd rhoi llais i'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn. Mae gennyf brofiad uniongyrchol o'r gwaith a wneir gan fudiadau fel yr Urdd, sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ennill profiadau newydd wrth ddefnyddio'r iaith.

Oherwydd y pandemig, rwy'n teimlo mai ond megis dechrau helpu'r bwrdd ydw i, i ddatblygu ei strategaeth a sicrhau ei wydnwch ar gyfer y dyfodol, a hoffwn barhau â'r daith hon. Credaf y gallwn gynnig unigolyn galluog, medrus a phroffesiynol i CGGC a'i aelodau, sydd â'r awydd i ddysgu mwy am y sector, hyrwyddo eich gwaith a'ch helpu i gyflawni eich nodau.

Byddwn yn gwerthfawrogi eich cymorth i wireddu hyn.